# Enfys Gwymon

**Mae llawer o wahanol fathau o wymon a chen ar arfordiroedd creigiog Cymru.**

**Mae pob un yn hoffi gwahanol amodau. Gall hyn olygu y bydd gwahanol liwiau ar lan y môr, fel enfys.**



## Bydd angen:

- Papur sidan coch, gwyrdd, glas, oren a brown
- Argraffydd neu bapur tracio
- Lluniau o wahanol fathau o wymon
- Siswrn
- Glud

## Cyfarwyddiadau:

**1.** Copïwch siâp y gwymon yn fras ar bapur sidan y lliw cywir (neu argraffwch y daflen Lliwiau'r arfordir a defnyddio'r lluniau fel templed)

**2.** Torrwch o gwmpas eich siâp gwymon

**3.** Argraffwch ein templed enfys (neu tynnwch lun o enfys eich hun)

**4.** Torrwch siâp hanner cylch o bapur glas. Gludwch y siâp glas ar waelod eich darn o bapur. Dyma ran ddyfnaf eich arfordir creigiog.

**5.** Gludwch y gwahanol fathau o wymon o gwmpas eich pwll yn y drefn y byddwch yn eu gweld nhw ar lan y môr. Byddan nhw'n croesi drosodd i wahanol rannau – yn union fel y byddan nhw ar arfordir go iawn.

**6.** Dilynwch y cynllun ar y templed enfys ar y dudalen nesaf:

**Gwymon coch** e.e. Gwymon bwyta (*Chondrus crispus*) Rhan isaf yr arfordir, dan ddŵr y môr gan amlaf

**Gwymon brown** e.e. Gwymon codog mân (*Fucus vesiculosus*) Rhan ganol yr arfordir, dan ddŵr y môr weithiau


**Gwymon gwyrdd** e.e. Gwylaeth y môr a Gwymon perfedd gwyrdd (*Ulva sp.*) Rhan ganol a rhan uchaf yr arfordir, dan ddŵr y môr weithiau

Mae'r llinell du trwm yn dangos ardal o **gen du** ar greigiau rhan uchaf yr arfordir


Mae **cen oren** yn byw yn yr ardal sblasio, sydd uwchben y môr hyd yn oed yn ystod y llanw uchaf

# Lliwiau'r arfordir


**Ardal sblasio: Cen oren (*Caloplaca sp.)***




**Rhan ganol a rhan uchaf yr arfordir: Gwymon gwyrdd (*Ulva lacuta*)**




**Rhan ganol yr arfordir: Gwymon brown (*Fucus vesiculosus*)**



**Rhan isaf yr arfordir: Gwymon coch (*Chondrus crispsus*) sy'n gallu byw mewn dŵr hyd at 24 metr o ddyfnder!**




Oren
(cen)
Gwyrdd
(gwymon)
Brown
(gwymon)
Red
(gwymon)